# ATODIAD A: PROFFIL ARDAL LEOL O WYNEDD

## CYFLWYNIAD

Diben y **Proffil Ardal Leol o Wynedd** yw rhoi asesiad o brif nodweddion y sir fel bod gan weithredwyr eiddo hapchwarae trwyddedig ddealltwriaeth well ac ymwybyddiaeth o Wynedd a'i risgiau.

Er nad oes gofyn statudol i awdurdodau trwyddedu baratoi proffil ardal leol, y gobaith yw y bydd y wybodaeth a ddarperir yn helpu gweithredwyr wrth baratoi eu hasesiadau risg lleol ar gyfer eiddo hapchwarae trwyddedig.

Yn y ddogfen hon ceir asesiad o:

- Nodweddion Ardal Gwynedd;
- Nodweddion Ieithyddol Gwynedd;
- Eiddo Hapchwarae Trwyddedig yng Ngwynedd;
- Sefydliadau Sensitif yng Ngwynedd; a
- Faint o bobl fregus sydd yng Ngwynedd.

## NODWEDDION ARDAL

Mae sir Gwynedd yng ngogledd-orllewin Cymru ac mae ganddi boblogaeth o dros 122,000; mae arwynebedd ei thir yn 2,548 cilomedr sgwâr ac wedi'i rhannu rhwng tair ardal sef Arfon, Dwyfor a Meirionnydd. Mae gan Wynedd 301km o arfordir ac yno hefyd saif mynydd uchaf Cymru a Lloegr, sef yr Wyddfa, sy'n 3,560 troedfedd. Mae'r rhan helaeth o'i harwynebedd y tu mewn i ffin Parc Cenedlaethol Eryri, sy'n ategu prydferthwch yr ardal.

Mae'r diwydiant hamdden a thwristiaeth yng Ngwynedd yn cyfrannu'n helaeth at yr economi lleol. Mae dros saith miliwn o dwristiaid ac ymwelwyr yn cael eu denu i Wynedd bob blwyddyn. Mae Penrhyn Llŷn yn rhan o ardal Dwyfor ac mae'n adnabyddus am ei arfordir amrywiol ac ysblennydd a'i dirwedd brydferth. Dynodwyd y penrhyn yn **Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol** (AHNE) ym 1956. Mae'r AHNE yn cwmpasu tua chwarter y penrhyn - cyfanswm o 15,500 hectar, ar hyd yr arfordir yn bennaf, ond mae hefyd yn ymestyn i mewn i'r tir ac yn cynnwys allwthiadau igneaidd Garn Fadryn a'r Eifl. Prif bwrpas AHNE yw cynnal a gwella harddwch naturiol yr ardal ddynodedig sy'n cynnwys amddiffyn nodweddion llystyfiant, anifeiliaid, daearegol, archaeolegol, olion hanesyddol a phensaernïol. Mae'r dynodiadau hefyd yn rhoi cyfrifoldeb i ddarparu mwynhad tawel o gefn gwlad a rhoi ystyriaeth i les y sawl sy'n byw ac yn gweithio yno. Ceir rhagor o wybodaeth am AHNE Llŷn yn **www.ahne-llyn-aonb.org** .

Mae addysg a dysg hefyd yn gyfranwyr mawr i economi lleol ardal Arfon. Yma y saif dinas Bangor, rhwng mynyddoedd Eryri a'r Fenai, sy'n gartref i Brifysgol Bangor y caiff dros 11,000 o fyfyrwyr eu denu iddi bob blwyddyn.

## NODWEDDION IAITH

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 65.4% o drigolion Gwynedd yn siaradwyr Cymraeg. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg ym mhob ardal yn amrywio'n fawr, gyda'r canran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn wardiau Llanrug (87.8%) a Pheblig (87.4%) ardal Arfon.

Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn ninas Bangor yn sylweddol is (36.4%) felly hefyd mewn ardaloedd arfordirol megis arfordir ardal Meirionnydd, gyda'r canran o siaradwyr Cymraeg yn Aberdyfi cyn ised â 35.5%.

Mae Tabl 1 yn dangos proffil yr iaith Gymraeg ymhlith y trigolion fesul ardal. Mae proffil yr iaith Gymraeg ymysg trigolion fesul ward ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd **www.gwynedd.gov.uk** .

**Tabl 1. Proffil yr Iaith Gymraeg yng Ngwynedd yn ôl Cyfrifiad 2011**

| | Arfon | Dwyfor | Meirionnydd | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran oedran 3+ | 58,427<br>96.5% | 26,833<br>96.8% | 32,529<br>96.9% | 117,789<br>96.6% | 2,955,841<br>96.5% |
| **Yn medru siarad Cymraeg** | **38,558<br>66.0%** | **19,124<br>71.3%** | **19,318<br>59.4%** | **77,000<br>65.4%** | **562,016<br>19.0%** |
| Yn medru siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg | 32,687<br>55.9% | 16,847<br>62.8% | 16,387<br>50.4% | 65,921<br>56.0% | 430,717<br>14.6% |
| Dim sgiliau iaith Gymraeg | 14,792<br>25.3% | 5,949<br>22.2% | 10,436<br>32.1% | 31,177<br>26.5% | 2,167,987<br>73.3% |
| Medru deall Cymraeg llafar yn unig | 4,279<br>7.3% | 1,517<br>5.7% | 2,329<br>7.2% | 8,125<br>6.9% | 157,792<br>5.3% |
| Yn medru siarad ond yn methu darllen nac ysgrifennu yn Gymraeg | 3,640<br>6.2% | 1,420<br>5.3% | 1,778<br>5.5% | 6,838<br>5.8% | 80,429<br>2.7% |
| Yn medru siarad ond yn methu ysgrifennu yn Gymraeg | 2,064<br>3.5% | 798<br>3.0% | 1,085<br>3.3% | 3,947<br>3.4% | 45,524<br>1.5% |
| Cyfuniad arall o sgiliau iaith Gymraeg | 965<br>1.7% | 302<br>1.1% | 514<br>1.6% | 1,781<br>1.5% | 73,392<br>2.5% |

